**Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru**
***(Polisi Aflonyddu a Chamymddwyn Rhywiol)***

**Gwybodaeth a Rheoli Fersiynau:**

<table>
<tr><td colspan="8">Teitl: Polisi Aflonyddu a Chamymddwyn Rhywiol</td></tr>
<tr><td colspan="8">Fersiwn Saesneg:<br>Mae fersiwn Saesneg o'r ddogfen hon ar gael ar yr HWB.</td></tr>
<tr><td colspan="8">Statws y ddogfen hon: “Polisi”<br>Mae CBCDC yn diffinio’r term polisi fel system fwriadol o ganllawiau i lywio penderfyniadau a sicrhau canlyniadau rhesymol. Datganiad o fwriad yw polisi, ac fe'i gweithredir fel gweithdrefn neu brotocol.<br><br>Maent fel arfer yn deillio o sut yr hoffai pobl weld y gofod yn cael ei ddiffinio. Maent yn aml yn ddyheadol eu natur ac, fel arfer, ni fydd goblygiadau cyfreithiol am beidio â’u dilyn.</td></tr>
<tr><td>Fersiwn</td><td>Dyddiad Cyhoeddi</td><td>Enw’r Ffeil/ Teitl y Ddogfen</td><td>Disgrifiad o'r Adolygiad</td><td>Awdur/ Perchennog</td><td>Cymeradwywyd Gan</td><td>Dyddiad Cymeradwyo</td><td>Dyddiad yr Adolygiad Nesaf</td></tr>
<tr><td>1.0</td><td>Ionawr 2026</td><td>Polisi Aflonyddu a Chamymddwyn Rhywiol</td><td>Fersiwn Gyntaf</td><td>Rhian Griffiths</td><td>Y Bwrdd Academaidd</td><td>Rhagfyr 2025</td><td>Monitro Blynyddol, Mehefin 2027</td></tr>
</table>

**Cynnwys y Ddogfen Bolisi hon:**


Datganiad o fwriad

Nodau

Diffiniadau

Cyfrinachedd

Datgelu, a chefnogaeth i Fyfyrwyr sy'n Adrodd a Myfyrwyr sy’n Ymateb

Rhoi Gwybod

Cyngor a chefnogaeth i'r staff

Y broses ymchwilio

Pwyllgorau Disgyblu

Canlyniad

Rheoliadau a Gweithdrefnau Cysylltiedig

Canllawiau rhoi Sancsiynau ar waith

# POLISI AFLONYDDU

# A CHAMYMDDWYN RHYWIOL

# Cynnwys

Datganiad o fwriad ........ 2

Nodau ........ 2

Diffiniadau ........ 2

Cyfrinachedd ........ 4

Datgelu, a Chefnogaeth i Fyfyrwyr sy'n Adrodd a Myfyrwyr sy'n Ymateb ........ 4

Rhoi Gwybod ........ 5

Cyngor a Chefnogaeth i'r Staff ........ 6

Y Broses Ymchwilio ........ 6

Pwyllgorau Disgybl ........ 7

Canlyniad ........ 8

Rheoliadau a Gweithdrefnau Cysylltiedig ........ 8

Canllawiau rhoi Sancsiynau ar waith ........ 9

# POLISI AFLONYDDU A CHAMYMDDWYN RHYWIOL

**Datganiad o Fwriad**

1. Mae'r Polisi Aflonyddu a Chamymddwyn Rhywiol yn ymwneud â phob achos o aflonyddu a chamymddwyn rhywiol.
2. Mae'r Coleg wedi ymrwymo i greu amgylchedd croesawgar, diogel, parchus a chynhwysol lle gall ein myfyrwyr, cydweithwyr a phartneriaid gydweithio, arloesi a ffynnu mewn amgylchedd cadarnhaol ac optimistaidd lle mae pawb yn cefnogi ei gilydd, ac sy'n dathlu'r celfyddydau a chreadigrwydd. Dydy hi byth yn iawn aflonyddu, defnyddio trais na/neu gamymddwyn yn rhywiol mewn unrhyw ffordd.
3. Rydym yn cydnabod y niwed a'r effaith y mae camymddwyn rhywiol, aflonyddu a thrais yn eu hachosi, a'r effaith y gallai hyn ei chael ar astudiaethau myfyriwr yn y Coleg, beth bynnag fo'r rhywedd.
4. Ni fydd y Coleg yn goddef digwyddiadau o'r math hwn. Rydym yn eich annog i ddatgelu achosion o aflonyddu, stelcio, bwlio, trosedd/digwyddiad casineb a gwahaniaethu i ni, er mwyn i ni allu cynnig cyngor ac arweiniad i chi ynghylch: y cymorth sydd ar gael i chi; ein hopsiynau adrodd yn y Coleg ac yn allanol. Bydd y Polisi hwn a'r Gweithdrefnau cysylltiedig yn cael eu defnyddio i ymdrin yn deg ac yn drylwyr ag unrhyw achos y rhoddir gwybod amdano.
5. Mae'r Polisi'n defnyddio'r term 'camymddwyn rhywiol' yn benodol, yn hytrach na thermau cyfreithiol fel 'treisio' neu 'ymosodiad rhywiol', gan ddeall y gallai'r mater y rhoddir gwybod i'r Coleg amdano hefyd fod yn drosedd. Nid yw hyn yn adlewyrchu difrifoldeb yr ymddygiad ym marn y Coleg, ond mae'n atgyfnerthu bod proses y Coleg yn asesu a dorrwyd rheolau a disgwyliadau mewnol yn ôl pwysau tebygolrwydd, ac na all benderfynu a oes trosedd wedi cael ei chyflawni.

**Nodau**

6. Nodau'r Polisi hwn a'r Canllawiau a'r Gweithdrefnau cysylltiedig yw:

   - Sicrhau bod yr holl fyfyrwyr a staff yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau mewn perthynas ag aflonyddu a chamymddwyn rhywiol.
   - Darparu dull teg, tryloyw a chyson i roi gwybod am honiadau o aflonyddu a chamymddwyn rhywiol, i ymchwilio iddynt ac i ymateb iddynt.
   - Sicrhau bod gwybodaeth am ffynonellau cymorth ar gael i unrhyw un sy'n profi aflonyddu a chamymddwyn rhywiol, neu sy'n cael ei gyhuddo o hynny.
   - Darparu ymatebion a chymorth effeithiol, amserol a phriodol i ddioddefwyr a goroeswyr i'r graddau y mae'n ymarferol yng nghyd-destun cymuned y Coleg.

**Diffiniadau**

7. Mae trais a chamymddwyn rhywiol yn derm cyffredinol sy'n cynnwys ystod eang o ymddygiadau annerbyniol o natur rywiol, sy'n gallu digwydd ar-lein yn ogystal ag wyneb yn wyneb. Gall gynnwys y canlynol, ymhlith pethau eraill:

- aflonyddu rhywiol – unrhyw ymddygiad rhywiol digroeso tuag at berson arall sy'n gwneud i'r person deimlo'n ofidus neu'n ofnus, yn tramgwyddo neu'n codi cywilydd ar y person, neu sy'n ceisio gwneud i'r person deimlo felly
- ymosodiad rhywiol – unrhyw weithred rywiol nad oedd person wedi cydsynio iddi, neu y mae'n cael ei orfodi neu'n teimlo dan bwysau i'w chyflawni yn erbyn ei ewyllys. Mae'n cynnwys treisio, a throseddau rhywiol eraill fel gropio, cusanu neu gam-drin plant yn rhywiol
- seiberaflonyddu neu flacmel rhywiol (blacmel sy'n gysylltiedig â delweddau o natur bersonol/rhywiol)
- ymgymryd, neu geisio ymgymryd, â chyfathrach rywiol neu weithred rywiol heb ganiatâd
- rhoi sylwedd er mwyn ymgymryd â chyfathrach rywiol neu weithred rywiol heb ganiatâd
- tagu nad yw'n angheuol er boddhad rhywiol
- tynnu ffotograffau o natur bersonol/anweddus o berson arall heb ganiatâd y person, er enghraifft sgert-sbecian (upskirting)
- cam-drin gan ddefnyddio delweddau o natur bersonol, sydd hefyd yn cael ei alw'n bornograffi dial (rhannu delweddau o natur bersonol heb ganiatâd) gan gynnwys rhannu, neu fygwth rhannu, deunyddiau rhywiol preifat person arall heb ganiatâd a/neu olygu delweddau i'w gwneud yn amlwg rywiol
- voyeuriaeth
- dangos organau rhywiol yn amhriodol i berson arall
- dilyn person arall dro ar ôl tro, mewn ffordd a allai wneud i'r person deimlo'n anghyfforddus
- gwneud sylwadau digroeso o natur rywiol
- gorfodaeth neu fwlio gydag elfennau rhywiol
- troseddau rhyw yn erbyn plant, gan gynnwys meithrin perthynas amhriodol
- masnachu pobl er mwyn camfanteisio arnynt yn rhywiol
- gwahoddiadau a/neu ofynion rhywiol
- camfanteisio rhywiol (camddefnyddio sefyllfa o fregusrwydd, gwahaniaethau pŵer, neu ymddiriedaeth at ddibenion rhywiol).

8. Mae aflonyddu yn golygu ymddygiad digroeso gan rywun arall. Mae hyn yn cynnwys ymdrechion dro ar ôl tro i orfodi cyswllt a chyfathrebu digroeso mewn ffordd y gellid disgwyl y byddai'n achosi trallod neu ofn mewn unrhyw berson rhesymol. Gall gynnwys y canlynol, ymhlith pethau eraill:
   - galwadau ffôn, negeseuon testun, gweithgarwch ar gyfryngau cymdeithasol, llythyrau, negeseuon e-bost neu ymweliadau digroeso
   - cam-drin (ar lafar neu ar-lein)
   - ystumiau corfforol neu fynegiant wyneb
   - aflonyddu rhywiol
   - delweddau a graffiti.

9. Mae stelcio yn fath o aflonyddu dwys sy'n tueddu i fod yn fwy eithafol a phersonol nag aflonyddu. Mae stelcio yn batrwm o ymddygiad ailadroddol a digroeso sy'n gwneud i rywun deimlo'n ofidus neu'n ofnus. Dydy stelcio ddim bob amser yn dreisgar, ond mae'n drosedd. Os nad ydych chi'n siŵr a ydych chi'n cael eich stelcio, gall yr acronym Saesneg 'FOUR' eich helpu i benderfynu – a yw'r canlynol yn wir am y sylw rydych chi'n ei gael gan rywun:

- DIDDORDEB ANNATURIOL (**F**IXATED)
- OBSESIYNOL (**O**BSESSIVE)
- DIGROESO (**U**NWANTED)
- AILADRODDOL (**R**EPETITIVE)

10. Mae cam-drin domestig ac ymddygiad gorfodaethol neu reolaethol yn cynnwys achosion o gam-drin, trais neu ymddygiad sy'n rheoli, sy'n gorfodi, neu sy'n bygwth rhwng pobl sydd, neu sydd wedi bod, yn bartneriaid agos neu'n aelodau o'r teulu, beth bynnag fo'u rhywedd neu eu rhywioldeb. Gall hyn gynnwys, ymysg pethau eraill, cam-drin seicolegol, corfforol, rhywiol, ariannol a/neu emosiynol. Does dim ots ai dim ond unwaith mae'r ymddygiad wedi digwydd, neu a yw'n batrwm o ymddygiad.

**Cyfrinachedd**

11. Cedwir cyfrinachedd wrth weithredu'r Polisi hwn, pan fydd yn bosibl, gan nodi'r canlynol:

- Bydd staff perthnasol yn cael gwybodaeth sy'n angenrheidiol ac yn gymesur â'u rôl a'u rhan yn y broses
- Mae'n bosibl y bydd angen rhannu gwybodaeth o natur sensitif â'r rheini sy'n ymwneud â'r achos
- Pan fydd myfyriwr yn dilyn rhaglen sy'n arwain at gofrestriad proffesiynol, mae'n bosibl y bydd rheidrwydd ar y Coleg i ddatgelu i'r corff allanol
- Mae'n bosibl y bydd angen i'r Coleg rannu gwybodaeth y tu allan i'r sefydliad os yw hynny'n angenrheidiol er mwyn amddiffyn y partïon cysylltiedig, neu eraill, rhag niwed neu er mwyn atal trosedd.

12. Rhaid i bob parti ofalu bod yr wybodaeth a fydd yn cael ei datgelu iddynt fel rhan o'r broses yn cael ei chadw'n gyfrinachol. Bydd datgelu gwybodaeth gyfrinachol heb awdurdod – gan gynnwys recordio, copïo neu ddosbarthu recordiadau fideo/sain a gwaith papur sy'n gysylltiedig ag ymchwiliadau a gwrandawiadau – yn cael ei ystyried yn drosedd ddisgyblu, ac ymdrinnir â'r mater yn unol â hynny. Bydd y Coleg yn gweithredu yn unol â'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR) a Deddf Diogelu Data 2018.

**Datgelu, a Chymorth i Fyfyrwyr sy'n Adrodd a Myfyrwyr sy'n Ymateb**

13. Gall myfyriwr ddatgelu profiad o gamymddwyn rhywiol drwy amrywiaeth o ffyrdd, gan gynnwys drwy'r system Adrodd a Chymorth, i'r Gwasanaethau Cymorth i Fyfyrwyr, neu i unrhyw aelod o staff y Coleg. Bydd datgeliad yn cael ei dderbyn yng nghyd-destun Polisi Diogelu'r Coleg.

14. Bydd y Coleg yn ceisio lleihau sawl gwaith y mae'n rhaid i'r Parti sy'n Adrodd ddatgelu digwyddiad o aflonyddu a chamymddwyn rhywiol.

15. Bydd aelod addas o'r Tîm Cymorth i Fyfyrwyr yn cael ei neilltuo i roi cymorth, cyngor ac arweiniad cyfrinachol i'r Parti sy'n Adrodd. Mae'r tîm yn defnyddio dulliau sy'n ystyriol o drawma. Mae hyn yn golygu adnabod arwyddion o drawma, deall sut, beth, ble a phryd i ofyn cwestiynau a defnyddio technegau a strategaethau sy'n lleihau'r posibilrwydd o ail-fyw'r trawma. Byddant hefyd yn gallu helpu i hwyluso

atgyfeiriad at sefydliad allanol, sy'n darparu cymorth arbenigol i'r rheini y mae camymddwyn rhywiol wedi effeithio arnynt.

16. Bydd person cymorth yn cael ei neilltuo i roi cymorth, cyngor ac arweiniad cyfrinachol i'r Myfyriwr sy'n Ymateb.

17. Gall y Parti sy'n Adrodd a'r Myfyriwr sy'n Ymateb gyflwyno cais am amgylchiadau esgusodol, os byddant o'r farn bod yr achos wedi effeithio ar eu hastudiaethau academaidd. Nid oes angen iddynt ddarparu manylion yr amgylchiadau sy'n berthnasol i'w cais; bydd y Rheolwr Cymorth i Fyfyrwyr yn darparu llythyr i gefnogi'r cais.

**Rhoi Gwybod**

18. Ar ôl datgelu, bydd y Parti sy'n Adrodd yn cael gwybodaeth a chymorth (gan gynnwys y posibilrwydd o gwrdd â swyddog heddlu cymunedol y Coleg os byddai hynny'n ddefnyddiol) i'w helpu i ystyried yr opsiynau, gan gydnabod y gallai fod angen amser i bwyso a mesur cyn gwneud penderfyniad. Gall y Parti sy'n Adrodd:
    - roi gwybod i'r heddlu;
    - rhoi gwybod i'r Coleg o dan y Polisi hwn;
    - peidio â rhoi gwybod am y digwyddiad; a/neu
    - derbyn cyngor ar y cymorth sydd ar gael, o fewn y Coleg a gan wasanaethau arbenigol.

19. Bydd y Parti sy'n Adrodd yn cael ei gyfeirio at Ganolfan Atgyfeirio Ymosodiadau Rhywiol (SARC/New Pathways), os yw'n briodol. Bydd hyn yn galluogi'r Parti sy'n Adrodd i wneud adroddiad dienw a storio tystiolaeth, tra bydd yn dewis pa opsiwn mae am ei ddewis. Bydd hefyd yn galluogi'r Parti sy'n Adrodd i ddod i gyswllt â Chynghorydd Annibynnol ar Drais Rhywiol (ISVA) sy'n gallu darparu cymorth emosiynol parhaus.

20. Bydd dymuniadau'r Parti sy'n Adrodd yn cael eu hystyried wrth benderfynu a ddylid rhoi gwybod i'r heddlu. Fodd bynnag, gall y Coleg roi gwybod am y mater yn groes i ddymuniadau'r Parti sy'n Adrodd os oes angen datgelu'r wybodaeth er mwyn diogelu'r Parti sy'n Adrodd, neu eraill, rhag niwed neu er mwyn atal trosedd arall. Bydd y Coleg yn sicrhau yr ymdrinnir â'r mater yn sensitif, a bod yr holl unigolion y mae hyn yn effeithio arnynt yn cael cefnogaeth briodol. (Cyfeiriwch hefyd at y Polisi a'r Gweithdrefnau ar gyfer Ymddygiad Myfyrwyr, adran 5).

21. Er y gall y Coleg roi gwybod i'r heddlu, nid oes rheidrwydd ar y Parti sy'n Adrodd i gymryd rhan mewn ymchwiliad gan yr heddlu, ac mae'n cadw'r hawl i newid ei feddwl ar unrhyw adeg.

22. Bydd y penderfyniad ynghylch a ddylid rhoi gwybod i'r heddlu yn cael ei wneud ar sail asesiad risg, a'r Cyfarwyddwr Gweinyddiaeth Academaidd a Phrofiad Myfyrwyr sy'n bennaf gyfrifol am y penderfyniad. Yr Asesiad Risg fydd yn penderfynu pwy fydd yn rhoi gwybod i'r heddlu, a bydd y rhesymeg dros hynny yn cael ei chofnodi.

23. Bydd ymchwiliadau troseddol yn cael blaenoriaeth dros ymchwiliadau a gynhelir gan y Coleg. Os cynhelir ymchwiliad troseddol, bydd y Coleg yn atal unrhyw ymchwiliad am gyfnod fel nad yw'n peryglu unrhyw achos troseddol. Fel arfer, bydd y Coleg wedi'i gyfyngu i gymryd camau rhagofalus yn unig.

24. Os bydd y Parti sy'n Adrodd yn penderfynu peidio â chymryd rhan mewn ymchwiliad gan yr heddlu, bydd yn dal yn gallu gwneud cais am i'r mater gael ei ystyried o dan y Polisi hwn a'r Gweithdrefnau cysylltiedig. Yn yr amgylchiadau hyn, ymdrinnir â'r mater fel achos posibl o dorri'r Polisi a'r Gweithdrefnau sy'n Llywodraethu Ymddygiad Myfyrwyr, ac nid fel trosedd. Bydd cyfarfod adolygu achos cychwynnol yn cael ei gynnal cyn cymryd unrhyw gamau ffurfiol, gan gynnwys asesiad risg.

25. Gall y Coleg, o'i wirfodd, hefyd benderfynu defnyddio'r Polisi a'r Gweithdrefnau sy'n Llywodraethu Ymddygiad Myfyrwyr.

26. Pan fydd Parti sy'n Adrodd wedi cyflwyno adroddiad sy'n enwi drwy'r system Adrodd a Chymorth ac wedi cadarnhau'r adroddiad yn dilyn cyfarfod â staff priodol, gellir defnyddio'r adroddiad hwnnw i gychwyn ymchwiliad o dan y Weithdrefn hon. Neu, gall y Parti sy'n Adrodd lenwi ffurflen Honiad o Gamymddwyn. Ni ellir ymchwilio i ddigwyddiad os yw'r Parti sy'n Adrodd yn dymuno aros yn ddienw, neu os nad yw'n dymuno i fanylion yr honiad gael eu rhannu â'r Myfyriwr sy'n Ymateb. Fel arfer, dim ond er mwyn dadansoddi tueddiadau y bydd adroddiadau wedi'u hanonymeiddio yn cael eu defnyddio.

**Cyngor a Chymorth i'r Staff**

27. Rhaid i staff sy'n derbyn datgeliad am achos o drais/camymddwyn rhywiol gyflwyno adroddiad ar unwaith drwy'r system Adrodd a Chymorth.

28. Mae'r Coleg yn disgwyl i staff sy'n rhoi gwybod am gamymddwyn rhywiol, neu sy'n dyst i hynny, gymryd rhan yn y broses ymchwilio a chytuno ag unrhyw gais dilynol i fynd i wrandawiad.

29. Cydnabyddir bod tystio i gamymddwyn rhywiol, a chymryd rhan mewn unrhyw broses ddilynol, yn gallu achosi gofid. Mae'r Coleg yn cynnal Cynllun Cymorth i'r Staff, ac mae'r manylion i'w gweld ar wefan yr adran Adnoddau Dynol. Gall staff hefyd ddefnyddio Gwasanaeth Cwnsela'r Coleg.

**Y Broses Ymchwilio**

30. Bydd y broses ymchwilio yn gyson â'r hyn sydd wedi'i amlinellu yn y Polisi a'r Gweithdrefnau sy'n Llywodraethu Ymddygiad Myfyrwyr.

31. Nid yw gallu ymchwiliol y Coleg yr un fath â'r hyn sy'n digwydd mewn achosion troseddol. Er enghraifft, nid oes dadansoddiad fforensig nac archwiliadau meddygol ar gael i'r Coleg. Yn ôl y Polisi a'r Gweithdrefnau sy'n Llywodraethu Ymddygiad Myfyrwyr, mae angen i'r Coleg ddod i gasgliadau yn ôl 'pwysau tebygolrwydd' ac nid y safon droseddol, sef 'y tu hwnt i bob amheuaeth resymol'.

32. Mewn rhai amgylchiadau, gall y Coleg benderfynu cyflogi ymchwilydd arbenigol allanol.

33. Yn y gwrandawiad, bydd y Parti sy'n Adrodd yn cael yr opsiwn o chwarae ei gyfweliad a recordiwyd, os bydd yr achos yn symud ymlaen i'r cam hwn.

34. Bydd y Swyddog Ymchwilio yn penderfynu a oes angen cyfweld ag unrhyw dystion a enwyd gan y Parti sy'n Adrodd neu'r Myfyriwr sy'n Ymateb. Er mwyn gwneud hynny, bydd rhaid i'r Swyddog Ymchwilio ddatgelu i'r tyst fanylion yr achos sydd dan ystyriaeth. Bydd rhaid i'r partïon sy'n rhan o'r broses gadw gwybodaeth yn gyfrinachol.

35. Bydd y Coleg yn gofalu bod tystiolaeth newydd berthnasol a gasglwyd yn ystod ymchwiliad yn cael ei rhannu â'r Parti sy'n Adrodd, er mwyn galluogi'r Parti sy'n Adrodd i ymateb i'r dystiolaeth newydd honno cyn i'r Swyddog Ymchwilio ddod i gasgliadau.

36. Bydd y Coleg yn gofalu bod tystiolaeth newydd berthnasol a gasglwyd yn ystod ymchwiliad yn cael ei rhannu â'r Myfyriwr sy'n Ymateb, er mwyn galluogi'r Myfyriwr sy'n Ymateb i ymateb i'r dystiolaeth newydd honno cyn i'r Swyddog Ymchwilio ddod i gasgliadau.

37. Ar ôl cwblhau'r ymchwiliad, bydd adroddiad y Swyddog Ymchwilio yn cael ei gyflwyno i'r Cyfarwyddwr Gweinyddiaeth Academaidd a Phrofiad Myfyrwyr. Penderfynir a oes achos i'w ateb ac, os felly, a ddylid cyfeirio'r achos at Bwyllgor Disgyblu'r Coleg.

38. Bydd y Coleg yn egluro'n glir i'r Parti sy'n Adrodd a'r Parti sy'n Ymateb a yw'r honiad wedi'i gadarnhau (gan amlinellu'n gryno y rhesymau dros y penderfyniad gan ddefnyddio iaith syml).

**Pwyllgorau Disgyblu**

39. Bydd Pwyllgorau Disgyblu yn cael eu sefydlu a'u rheoli fel yr amlinellir yn y Polisi a'r Gweithdrefnau sy'n Llywodraethu Ymddygiad Myfyrwyr.

**Mynd i Wrandawiad Pwyllgor Disgyblu'r Coleg**

40. At ddibenion y Polisi hwn a'r Gweithdrefnau cysylltiedig, a phan fydd yn berthnasol, mae'r Parti sy'n Adrodd yn cael ei ystyried yn dyst. Bydd y Parti sy'n Adrodd yn cael gwahoddiad i fynd i'r gwrandawiad. Fodd bynnag, does dim rhaid i'r Parti sy'n Adrodd fynd i'r gwrandawiad ac, o ganlyniad, gall wrthod unrhyw wahoddiad o'r fath. Bydd y Coleg yn parchu penderfyniad y Parti sy'n Adrodd ynghylch mynd i'r gwrandawiad.

41. Os bydd y Parti sy'n Adrodd yn penderfynu peidio mynd i'r gwrandawiad, bydd y dystiolaeth ysgrifenedig a gyflwynir gan y Parti sy'n Adrodd yn cael ei hystyried yn dystiolaeth 'ail-law (hearsay)'. Mae hwn yn derm cyfreithiol ar gyfer tystiolaeth nad yw'n cael ei phrofi drwy ofyn cwestiynau'n bersonol i'r sawl sy'n darparu'r dystiolaeth. Gallai tystiolaeth ail-law gynnwys unrhyw dystiolaeth wedi'i recordio ymlaen llaw neu dystiolaeth ysgrifenedig.

42. Bydd tystiolaeth ail-law yn cael ei hystyried gan y Pwyllgor er mwyn penderfynu a ddylid ei chynnwys fel rhan o sylfaen y dystiolaeth. Os caiff y dystiolaeth ei chynnwys, rhaid i'r Pwyllgor benderfynu faint o bwys neu bwysigrwydd ddylid ei roi i'r dystiolaeth hon. Dyma enghreifftiau o amgylchiadau a allai arwain at roi llai o bwys ar dystiolaeth y Parti sy'n Adrodd na thystiolaeth y Myfyriwr sy'n Ymateb a gyflwynir yn bersonol: a oes gwahaniaethau pwysig a heb eu profi rhwng yr adroddiadau a roddwyd, ac a fu cyfle i'r Myfyriwr sy'n Ymateb herio'r dystiolaeth sy'n ymwneud â'r gwahaniaethau hynny. Mae'n debygol y bydd llai o bwys neu bwysigrwydd yn cael ei roi i dystiolaeth ail-law (os derbynnir y dystiolaeth).

43. Caiff y Coleg ofyn i aelodau staff, ac unrhyw unigolyn arall sy'n berthnasol i'r achos, fod yn bresennol yn y gwrandawiad fel tystion. Bydd y Parti sy'n Adrodd a'r Myfyriwr sy'n Ymateb yn cael gwybod enwau unrhyw dystion cyn y gwrandawiad.

44. Gellir cynnal y gwrandawiad wyneb yn wyneb neu drwy ddulliau electronig. Pan fydd gwrandawiad yn cael ei gynnal wyneb yn wyneb, gwneir darpariaeth i'r Parti sy'n Adrodd fod yn bresennol naill ai wyneb yn wyneb neu drwy ddulliau electronig, mewn ystafell ar wahân.

**Canlyniad**

45. Bydd manylion y gosb a osodir (yn unol â Thariff Cosbau Camymddygiad Myfyrwyr) yn cael eu rhannu â'r parti sy'n adrodd, yn amodol ar ymgynghoriad fesul achos gyda'r Swyddog Diogelu Data.

**Rheoliadau a Gweithdrefnau Cysylltiedig**

- Y Polisi a'r Gweithdrefnau sy'n Llywodraethu Ymddygiad Myfyrwyr
- Polisi a Gweithdrefnau Diogelu
- Datganiadau Gofod Parchus
- Rheoliadau a Gweithdrefn Amgylchiadau Esgusodol
- Rheoliadau a Gweithdrefn Cymorth i Astudio
- Polisi Urddas yn y Gweithle

**Canllawiau rhoi Sancsiynau ar waith**

| TROSEDD DDISGYBLU | ENGHREIFFTIAU O YMDDYGIAD ANNERBYNIOL | ENGHREIFFTIAU O SANCSIYNAU | CYFRIFOLDEB DROS GYFLWYNO SANCSIWN |
|---|---|---|---|
| Camymddwyn Rhywiol | Ymgymryd â chyfathrach rywiol neu weithred rywiol heb ganiatâd<br>• Ceisio ymgymryd â chyfathrach rywiol neu weithred rywiol heb ganiatâd<br>• Rhoi sylwedd er mwyn ymgymryd â chyfathrach rywiol neu weithred rywiol heb ganiatâd<br>• Tagu nad yw'n angheuol er boddhad rhywiol<br>• Tynnu ffotograffau o natur bersonol/anweddus o berson arall heb ganiatâd y person, er enghraifft sgert-sbecian (upskirting)<br>• Rhannu, neu fygwth rhannu, deunyddiau rhywiol preifat person arall heb ganiatâd a/neu olygu delweddau i'w gwneud yn amlwg rywiol<br>• Voyeuriaeth<br>• Dangos organau rhywiol yn amhriodol i berson arall<br>• Dilyn person arall dro ar ôl tro, mewn ffordd a allai wneud i'r person deimlo'n anghyfforddus<br>• Gwneud sylwadau digroeso o natur rywiol<br>• Gorfodaeth neu fwlio gydag elfennau rhywiol<br>• Gwahoddiadau a/neu ofynion rhywiol<br>• Troseddau rhyw yn erbyn plant, gan gynnwys meithrin perthynas amhriodol • Masnachu pobl er mwyn camfanteisio arnynt yn rhywiol • Gwahoddiadau a/neu ofynion rhywiol | • Diarddel<br>• Gwahardd dros dro<br>• Rhybudd ysgrifenedig ffurfiol | Pwyllgor Disgyblu'r Coleg |
| | • Bygwth rhannu sibrydion neu luniau rhywiol<br>• Gwneud sylwadau digroeso o natur rywiol<br>• Gwahoddiadau a/neu ofynion rhywiol | • Rhybudd ysgrifenedig ffurfiol | Y Cyfarwyddwr Gweinyddiaeth Academaidd a Phrofiad Myfyrwyr |